

Amgueddfa Cymru

Polisi Gweddillion Dynol

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn sicrhau bod ein casgliadau'n hygyrch i bawb mewn ffyrdd sy'n fanteisiol i gynulleidfaoedd heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Mae gweddillion dynol yn rhoi darlun gwirioneddol i ni o fywydau, iechyd a marwolaeth pobl sydd wedi byw yng Nghymru. Pobl o gig a gwaed oedd gweddillion dynol ar un adeg, felly byddwn ni'n gofalu amdany'n nhw mewn modd sy'n eu parchu o ran eu diwylliant yn ogystal â sicrhau eu bod ar gael ar gyfer gwaith ymchwil, dysgu ac arddangos.

1.2 Mae'r polisi hwn yn un rhan o'n Fframwaith Rheoli Casgliadau, ac felly'n gweithredu ochr yn ochr â strategaethau a pholisïau cysylltiedig eraill yr Amgueddfa a restrir yn ein *Polisi Rheoli Casgliadau*.

2. Amcan

2.1 Mae'r polisi hwn yn nodi sut fydd yr Amgueddfa yn caffael, yn gofalu am, ac yn cyflwyno'r gweddillion dynol yn ein casgliad mewn ffordd sensitif a pharchus.

3. Diffiniad o Weddillion Dynol

3.1 Rydym yn defnyddio'r term 'gweddillion dynol' i gyfeirio at gyrff, neu rannau o gyrff pobl fu unwaith yn fyw o'r rhywogaeth *Homo sapiens* (a ddiffinnir fel unigolion sy'n rhan o'r ystod o ffurfiau anatomegol sy'n hysbys heddiw ac yn y gorffennol diweddar) ac unrhyw ddynolion esblygol cynharach a allai fod yn rhannu hynafiad â bodau dynol heddiw (e.e. *Homo neanderthalensis*). Mae hyn yn cynnwys deunydd esgyrn (sgerbydau llawn neu ddarnau o sgerbydau, darnau o esgyrn neu ddannedd), meinweoedd meddal gan gynnwys organau a chroen, embryonau a pharatoadau sleid o feinweoedd dynol.

3.2 Gall gweddillion dynol gynnwys unrhyw un o'r uchod sydd wedi cael eu haddasu mewn rhyw ffordd trwy sgiliau dyn ac/neu wedi'u rhwymo â deunyddiau gwneud eraill i greu arteffact sy'n cynnwys sawl math o ddefnydd. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gweithiau celf a wnaed gan ddefnyddio hylifau corff dynol a meinweoedd meddal.

4. Ystyriaethau Cyfreithiol a Moesegol

4.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod y byddwn ni'n gofalu am y gweddillion dynol sydd yn ein casgliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol (Deddf Meinweoedd Dynol 2004) a'r canllawiau arferion gorau (*DCMS Guidance for the Care of Human Remains in Museums*, 2005).

4.2 Yn ôl y gyfraith, ni allwn fod yn berchen ar weddillion dynol heblaw am y rhai hynny sydd wedi'u trin neu eu haddasu trwy gyfrwng sgiliau arbennig. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y cyfrifoldebau moesegol a roddwyd i ni yn sgil perchnogaeth o weddillion o'r fath. Rydyn ni'n ymrwymo i drin unrhyw weddillion dynol mewn ffordd foesegol a chymdeithasol gyfrifol.

4.3 Rydyn ni'n cadw gweddillion dynol yn rhinwedd natur hanesyddol y casgliad sydd yn ein gofal. Credwn mewn bod yn agored am gynnwys y casgliad a rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un sy'n holi amdani.

5. Caffael Gweddillion Dynol

5.1 Bydd unrhyw benderfyniad i gadw'r rhain yn barhaol yn y casgliad neu beidio, yn cael eu cymryd ar ôl ymgynghori â'r cymunedau lleol priodol ac arbenigwyr. Bydd holl gaffaeliadau o weddillion dynol yn cael eu gwneud gyda chyfeiriad at *Bolisi Datblygu'r Casgliad* yr Amgueddfa.

5.2 Efallai y bydd gweddillion dynol archaeolegol yn deillio o brojectau gwaith maes. Gallai'r gweddillion dynol hyn fod o bwys gwyddonol, moesegol a chrefyddol i'r DU. Dim ond os ydynt yn cyrraedd yr Amgueddfa gyda thrwydded gan yr awdurdod cywir y byddwn yn derbyn gweddillion dynol.

5.3 Os nad yw'r tir yn destun effeithiau cyfreithiol cysegru, gan gynnwys manau claddu segur yn ôl diffiniad Deddf Claddfeydd Nas Defnyddir (1981), byddwn ond yn derbyn gweddillion dynol â thrwydded i'w datgladdu (gan gynnwys gweddillion wedi'u hamlosgi) o'r tir, gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

5.4 Yn achos rhai gweddillion Cristnogol, os yw'r tir yn destun effeithiau cyfreithiol cysegru, yna mae'n rhan o awdurdodaeth yr Eglwys yng Nghymru. Rhaid i unrhyw weddillion dynol a gafaelwyd gynnwys trwydded sy'n dangos bod caniatâd i ddatgladdu a chadw'r gweddillion dynol wedi'i gael trwy weinyddiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Yn achos eglwysi a mynwentydd eglwysi, bydd angen cynneddf gan Ganghellor yr Esgobaeth. Yn achos eglwysi cadeiriol a chyffiniau eglwysi cadeiriol, bydd angen caniatâd gan awdurdod perthnasol yr eglwys gadeiriol.

5.5 Dim ond gyda datganiad ffurfiol o fwriad wedi'i lofnodi gan yr unigolyn cyn iddo/iddi farw y byddwn yn caffael gweddillion dynol sy'n cael eu cwmpasu gan ddiffiniad y Ddeddf Meinweoedd Dynol a bod llai na chan mlynedd ers marwolaeth yr unigolyn.

6. Arddangos

6.1 Lle bo gweddillion dynol yn rhan o arddangosfa, naill ai tymor hir neu'r tymor byr, byddwn ni'n eu harddangos mewn ffordd briodol i'w diwylliant, yn sensitif ac yn addysgiadol, ac yn cynnwys dehongliad esboniadol a chyd-destunol. Ni chaiff gweddillion dadleuol neu weddillion pobl y gellid eu hadnabod eu harddangos heb gwblhau proses ymgynghori â grwpiau diwylliannol perthnasol.

6.2 Yn achos arddangos gweddillion dynol lle mae angen trwydded arddangos dan delerau'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, byddwn ni'n sicrhau trwydded cyn i'r gweddillion ddod i adeilad yr Amgueddfa.

7. Benthyciadau i Mewn

7.1 Byddwn ni'n trin holl weddillion dynol sy'n cyrraedd yr Amgueddfa fel y byddem yn trin ein casgliadau ein hunain.

7.2 Bydd unrhyw fenthyciad mewnol o weddillion dynol yn destun proses diwydrwydd dyladwy sy'n sicrhau bod yr holl drwyddedau datgladdu neu feinweoedd dynol ar gael cyn derbyn gweddillion dynol i'r Amgueddfa.

7.3 Bydd amodau'r *Polisi Benthyciadau i Mewn* yn berthnasol hefyd.

8. Benthyciadau allanol

8.1 Bydd amodau a thelerau *Polisi Benthyciadau Allan* yr Amgueddfa yn berthnasol i bob cais i fenthycia gweddillion dynol.

8.2 Rhaid i bob cais i fenthycia gweddillion dynol ddilyn telerau'r *Polisi Gweddillion Dynol* hwn.

9. Storio

9.1 Mae'r holl weddillion dynol sydd dros 100 mlwydd oed ers marwolaeth yn cael eu storio yn storfa gweddillion dynol benodol yr Amgueddfa.

9.2 Mae'r holl weddillion dynol sy'n llai na 100 mlwydd oed ers marwolaeth yn cael eu storio mewn cabinet penodol yn unol â gofynion Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

9.3 Bydd gweddillion archeolegol yn cael eu trefnu yn ôl safle a chyd-destun os yw'n hysbys. Mewn rhai achosion, gellir marcio esgyrn dynol â rhif cyd-destunol neu dderbyn, ond byddwn yn ceisio osgoi marcio'r gweddillion oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol i osgoi dryswch wrth eu hastudio neu eu harddangos. Lle bo modd, caiff sgerbydau unigol eu storio fesul un mewn bocs. Os yw esgyrn unigolion yn gymysg e.e. o feddrod siambr Neolithig, byddant yn cael eu storio yn ôl eu cyd-destun archeolegol. Bydd pob bocs yn cael ei labelu ag enw'r safle archeolegol a gwybodaeth am y sgerbydau neu'r cyd-destun os yw'n hysbys.

10. Ymchwil

10.1 Er mwyn cael mynediad at weddillion dynol am resymau ymchwil, rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Ceidwad perthnasol. Rhaid i unrhyw geisiadau esbonio natur y gwaith ymchwil a'r canlyniadau disgwylidig.

10.2 Er mwyn samplu neu ddadansoddi gweddillion dynol (gan gynnwys gweddillion DNA), rhaid gwneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio *Ffurflen Gais Samplu* yr Amgueddfa. Byddant yn cael eu hasesu, fel bo'r angen, gan guradur, cadwraethydd,

Ceidwad y testun perthnasol, ac efallai y bydd angen cymeradwyaeth gan gynghorydd annibynnol hefyd.

10.3 Disgwylir i bob ymchwiliwr sy'n cael caniatâd am fynediad ddilyn canllawiau'r sawl a bennwyd i oruchwylio'r ymweliad, a disgwylir iddo/iddi drin y gweddillion â'r parch mwyaf.

11. Dychwelyd, Ail-gladdu, Dad-dderbyn

11.1 Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran ddychwelyd ein gweddillion dynol tramor i'w gwledydd gwreiddiol lle bo hynny'n briodol. Byddwn ni'n agored i geisiadau am ddychwelyd unrhyw weddillion dynol eraill ac yn ymgynghori'n llawn â'r sawl sy'n eu hawlio.

11.2 Byddwn yn ystyried ceisiadau am ddychwelyd ac ail-gladdu gweddillion dynol fesul achos yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn nogfen *Canllawiau wrth Ofalu am Olion Dynol mewn Amgueddfeydd* yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau. Lle bo'n briodol, byddwn ni'n gofyn am gyngor annibynnol gan Bwyllgor Gweddillion Dynol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd.

11.3 Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau am ddychwelyd, ail-gladdu a dad-dderbyn yn ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru. Bydd caniatâd terfynol i drosglwyddo eitemau o eiddo'r Amgueddfa yn dibynnu ar *Bolisi Datblygu'r Casgliad* yr Amgueddfa ac yn amodol ar gadarnhad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru.